# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 14EG GORFFENNAF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 7 Gorffennaf 2023)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Gareth Tudor Jones

Huw Rowlands

Elfed Williams (Cadeirydd)

Edgar Wyn Owen (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. EITEM FRYS - GWRTHWYNEBIAD I GEISIADAU DIGWYDDIAD DROS DRO - BEECHWOOD HOUSE , DOLGELLAU** 5 - 7

I ystyried yr adroddiad

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **14 Gorffennaf 2023** |
| **TEITL:** | **EITEM FRYS - GWRTHWYNEBIAD I GEISIADAU DIGWYDDIAD DROS DRO – BEECHWOOD HOUSE , DOLGELLAU** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. <u>CEISIADAU A DDERBYNIWYD</u>

1.1 Atodir dau gais am ddigwyddiad dros dro , gan Dean Hawkins, deilydd Trwydded Bar Jin y Beechwood House, , Heol y Bont, Dolgellau LL40 1AU mewn perthynas a gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan. Mae gwrthwynebiad wedi ei dderbyn i'r ddau gais gan y Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd , gyda sylwadau hefyd yn ategu pryderon wedi eu derbyn gan yr Heddlu. Dim ond y Cyngor yn gweithredu ei gyfrifoldebau Iechyd Amgylchedd a'r Heddlu sydd gyda'r grym i wrthwynebu rhybudd digwyddiad dros dro. Nid oes trefn o ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y gyfundrefn digwyddiadau dros dro.

1.2 Oherwydd fod gwrthwynebiadau wedi eu derbyn yn unol ac adran 104 o'r Deddf Drwyddedu , mae'r ceisiadau yn cael eu cyfeirio atoch chwi fel Is Bwyllgor am benderfyniad. Mae manylion y ceisiadau fela ganlyn, a chopïau yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

1.3 **Cais 1 - Rhybudd Digwyddiad Dros dro i gynnal gweithgareddau trwyddedig estynedig i'r hyn sydd ar y drwydded fel rhan o weithgareddau Sesiwn Fawr Dolgellau 21 , 22 a 23 o Orffennaf.** Gofynnir am y canlynol yn ychwanegol i'r drwydded eiddo –

- Defnyddio'r ardal allanol i'r eiddo ar gyfer gwerthu alcohol i gwsmeriaid gyda cherddoriaeth wedi ei recordio a cherddoriaeth fyw 10 y bore tan 01:00 y bore wedyn; dydd Gwener , Sadwrn a dydd Sul.
- Bwriedir darparu gweithgareddau trwyddedig ar gyfer uchafswm o 499 o bobl
- Bwriedir gwerthu lluniaeth hwyr y nos o 23:00 tan 01:00 y bore wedyn
- Bwriedir defnyddio 'foam cannon' ar gyfer adloniant cwsmeriaid tu allan ar dydd Sadwrn y 22 ain o Orffennaf rhwng 18:00 a 21:00 yr hwyr.

1.4 **Cais 2 - Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i gael cerddoriaeth tu allan a bar tu allan ar y Marian Fawr yn Dolgellau fel rhan o ddigwyddiadau Hwyl yr Haf Dolgellau 19 o Awst**

- Gofynnir am yr hawl i gynnal gweithgareddau trwyddedig 200m i ffwrdd o Beechwood House ar y Marian Fawr gan gynnwys bar a cherddoriaeth wedi recordio rhwng 10 y bore tan 10 yr hwyr.
- Gofynnir am yr hawl i gael cynulleidfa i fyny i 499 o bobl

## 2. Trwydded gyfredol – Tŷ Beechwood

2.1 Mae'r drwydded eiddo gyfredol a ganiatawyd gan y Pwyllgor hwn yn 2020 yn caniatáu i'r eiddo fod yn gwerthu alcohol gyda'r hawl i chwarae cerddoriaeth tu mewn yn unol ag amodau sŵn. .Mae'r oriau fel a ganlyn –

- Llun - Iau 22:30
- Gwen – Sad 00:00
- Sul 22:00

2.2 Pan gyfeiriwyd y cais am drwydded yn wreiddiol i'r Pwyllgor hwn am benderfyniad oherwydd pryderon am ardrawiad sŵn, fe gytunodd yr ymgeisydd dderbyn amodau sŵn ar y drwydded yn unol ag argymhelliad Iechyd Amgylchedd, ac ar y sail hynny fe ganiatawyd y cais.

2.3 Mae'r amodau sŵn yn benodol iawn ynglŷn a'r mesurau sydd eu hangen i reoli sŵn , ac mae amod 4 yn nodi – *"Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant, heblaw am fynediad i mewn ac allan o'r eiddo"* Gweler yr atodiad am gopi o'r amodau sŵn llawn sydd ar y drwydded.

**3 Sail gwrthwynebu a thystiolaeth**

3.1 Mae'r gwrthwynebiad wedi ei gyflwyno gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd oherwydd pryder fod y digwyddiad yn mynd i danseilio yr amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelu iechyd cyhoeddus

3.2 Yn benodol, mae swyddogion y gwasanaeth wedi derbyn cwynion gan drigolion lleol fod cerddoriaeth yn cael ei chware yn ystod y dydd ac yn hwyr gyda'r nos , gyda sŵn amledd isel o'r math o gerddoriaeth a chwaraeir yn aflonyddu ar drigolion. Noder fod cwynion wedi bod yn cael eu derbyn yn achlysurol flwyddyn diwethaf, ond fod nifer ac amlder y cwynion a dderbynnir wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf. Fe dderbyniwyd cwynion am 7 o achlysuron rhwng y 25 o Fai a'r 9fed o Fehefin.

3.3 Mae trigolion hefyd yn tystio nad oes rheolaeth digonol o gwsmeriaid gan ddeilydd y drwydded, gyda cwsmeriaid yn ymgynnull ac yn parhau i yfed tu allan i'r eiddo tu hwnt i oriau cau

3.4 Mae'r cwynwyr yn nodi fod ffenestri a drysau yn agored yn aml pan mae cerddoriaeth yn cael ei chware , gan gynyddu effaith y sŵn, yn groes i amodau'r drwydded

3.5 Mae swyddogion y gwasanaeth wedi tystio eu hunain ar achlysuron nad ydi deilydd y drwydded yn cydymffurfio gyda amod 4 o'r amodau sŵn sydd ar y drwydded. Mae un swyddog wedi tystio ar achlysur fod cerddoriaeth gyda curiad amledd isel yn cael ei chwarae , gyda drysau a ffenestri yn agored a 'r 'speaker' wedi ei leoli ger ffenestr agored.

3.6 Mewn ymateb i gais am sylwadau gan y Cyngor , mae'r Heddlu wedi cadarnhau fod galwadau am aflonyddwch yn cael eu derbyn yn achlysurol , gyda trigolion yn cwyno am sŵn cerddoriaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chwsmeriaid yn ymgynnull tu allan i'r eiddo.

3.7 Ymhellach, mewn e bost dyddiedig y 21ain o Fehefin , fe gadarnhaodd Rhingyll Simon Barlow fod yr Heddlu yn rhannau pryderon y Cyngor, ac mewn perthynas a'r cais yn ymwneud a'r Sesiwn Fawr , cadarnhaodd fod trefnwyr yr ŵyl wedi nodi nad oedd yr eiddo yn rhan o ddigwyddiad Sesiwn Fawr ei hun , felly ni fyddai goruchwylwyr drysau cymwys ar gael ar yr eiddo i gadw trefn. Ategodd nad oedd yn glir paham roedd yr eiddo yn cyflwyno rhybudd digwyddiad dros dro; gan nad oedd yn rhan o weithgareddau y Sesiwn Fawr mewn unrhyw ffordd.

3.8 Nododd fod tref Dolgellau wedi bod yn brysur iawn yn ystod y Sesiwn Fawr flwyddyn diwethaf, gyda monitro niferoedd ac ymddygiad cwsmeriaid wedi ei gyfyngu i dafarndai oedd yn rhan o'r gweithgareddau. Nododd fod y bwriad i gael trwydded hwyr ar gyfer gofod tu allan i'r Beechwood House ar y palmant , a dim trefniadau cau lon mewn lle yn amlwg yn mynd i gael potensial o effaith negyddol ar ddiogelwch defnyddwyr y ffordd a chwsmeriaid mewn lleoliad peryglus ar gyffordd brysur wrth troad y Marian.

3.9 Fe dynnwyd sylw at y ffaith fod yr Heddlu wedi nodi pa mor brysur oedd y lleoliad ar benwythnosau flwyddyn diwethaf, gyda nifer fawr o gwsmeriaid yn ymgynnull tu allan, yn enwedig ar nos Sadwrn.

3.10 Fe nododd hefyd fod adnoddau yr Heddlu o dan gryn bwysau penwythnos y Sesiwn Fawr gyda digwyddiadau fel hyn yn debygol o gynyddu'r galw ar y gwasanaethau brys.

3.11 Cadarnhaodd fod yr Heddlu wedi derbyn amryw o gwynion sŵn gan drigolion cyfagos .

3.12 O ran y rhybudd digwyddiad Hwyl yr Haf, cytunodd yr Heddlu nad os digon o fanylion wedi ei gyflwyno ynglŷn a'r digwyddiad o ran nifer mynychwyr a mesurau diogelwch. Mae'r Heddlu felly yn cefnogi gwrthwynebiad y Cyngor am y rhesymau hyn ac am y pryderon sydd wedi eu nodi am y lleoliad yn gyffredinol

Gweler manylion llawn gohebiaeth Swyddog Iechyd Amgylchedd a'r Heddlu yn yr atodiad

## 4 ARGYMHELLIAD

Er i'r swyddog Iechyd Amgylchedd gadarnhau wrth yr ymgeisydd y bwriad i wrthwynebu os na fyddai mwy o wybodaeth yn cael ei dderbyn i ddiwallu pryderon y Cyngor a'r Heddlu ynglŷn a'r ddau ddigwyddiad ; ni fu ymateb gan yr ymgeisydd . Yn unol a'r drefn o dan y Deddf Drwyddedu 2003 argymhellir felly fod y Pwyllgor yn ystyried y pryderon a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn GWRTHOD y ddau rybudd digwyddiad dros dro.